SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
**COMMISSIONER** NORTH WALES

**Dogfen Bolisi / Policy Document**

# Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# Polisi
# Atal Twyll a Llygredigaeth

## Polisïau a Gweithdrefnau / Policies and Procedures

**Crynodeb o'r Polisi a'r Weithdrefn**

Nod y polisi hwn yw egluro'r weithdrefn atal twyll a llygredigaeth a weithredir o fewn Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) Gogledd Cymru. Mae'r polisi atal twyll a llygredigaeth wedi'i gynllunio i annog atal, hyrwyddo datgelu ac adnabod llwybr clir ar gyfer ymchwilio i weithgareddau neu ymddygiad twyllodrus a/neu lygredig.

"Corff Plismona Lleol" yw'r term a gyflwynwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Y Corff Plismona Lleol yng Ngogledd Cymru yw Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i staff a gyflogir gan SCHTh Gogledd Cymru o dan gyfarwyddyd Prif Weithredwr SCHTh, ac eithrio'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, sydd â pholisi ar wahân.

Mae'r polisi hwn wedi cael ei fabwysiadu gan SCHTh Gogledd Cymru.

**Dyddiad Cadarnhau: 24.06.2017**
**Dyddiad Adolygu: 13.02.2024 Fersiwn 3.0** **Adolygiad nesaf: 13/02/2028**

**Cynnwys**


**1. Cyflwyniad ..... 2**
**2. Diffiniad o dwyll a llygredigaeth ..... 2**
**3. Strategaeth Atal Twyll a Llygredigaeth ..... 3**
**4. Diwylliant ..... 3**
**5. Atal ..... 6**
**6. Datgelu ac ymchwilio ..... 6**
**7. Hyfforddiant ..... 7**
**8. Casgliad ..... 8**
**Atodiad 1 ..... 9**
**1. Canllawiau ar gyfer riportio anghysondebau ..... 9**
**2. Sut y bydd y corff plismona lleol yn ymateb ..... 9**
**Atodiad 2 ..... 11**
**Saith egwyddor bywyd cyhoeddus (PWYLLGOR NOLAN) ..... 11**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Gall twyll a llygredigaeth gael effaith sylweddol ar weithrediad, statws ac enw da sefydliad, yn enwedig ar gorff plismona lleol a'i wasanaeth heddlu a dylid ei wrthwynebu bob cyfle posibl.

1.2 Wrth weinyddu ei gyfrifoldebau mewn perthynas â thwyll a llygredigaeth, boed hynny yn ymgais ar y corff plismona lleol neu oddi fewn iddo, mae cyfrifoldeb ar y corff plismona lleol i weithredu polisi atal twyll a llygredigaeth effeithiol sy'n:

- Annog atal;
- Hyrwyddo datgelu; ac sy'n
- Adnabod llwybr clir ar gyfer ymchwilio.

1.3 Disgwyliad y sefydliad o ran priodoldeb ac atebolrwydd yw y bydd y corff plismona lleol a staff ar bob lefel yn arwain drwy esiampl gan sicrhau bod y rheolau'n cael eu dilyn a bod yr holl weithdrefnau ac arferion yn ddi-fai.

1.4 Hefyd mae'r corff plismona lleol yn mynnu bod unigolion a sefydliadau y mae'n dod i gysylltiad â nhw yn gweithredu gydag unplygrwydd pan fyddant yn delio â'r sefydliad hwn ac na fyddant yn ystyried neu'n cyflawni gweithredoedd twyllodrus neu lygredig.

## 2. Diffiniad o dwyll a llygredigaeth

2.1 Er pwrpas y polisi hwn, mae twyll a llygredigaeth wedi'u diffinio fel:

2.1.1 **Twyll**: Pan fydd unigolion o fewn neu oddi allan i'r sefydliad yn cam-lunio datganiadau ariannol neu gofnodion eraill yn fwriadol er mwyn celu'r camddefnydd o asedau neu er mwyn elwa mewn unrhyw ffordd.

Gall hyn gynnwys: ffugio hawliadau teithio a chynhaliaeth, ffugio hawliadau goramser neu oriau hyblyg, a sicrhau swydd drwy ffugio cymwysterau.

2.1.2 **Llygredigaeth**: Unrhyw weithgaredd a wneir gan unigolyn er elw, ffafr, dyrchafiad neu wobr sy'n anghyson gydag arferion priodol eu swydd, cyflogaeth neu gyfrifoldeb

Gall hyn gynnwys: lletygarwch, camddefnyddio cyfrifiaduron, buddion ariannol yr Heddlu a'r Prif Gwnstabl, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd a'r staff, a chael gwared ar asedau.

## 3. Strategaeth Atal Twyll a Llygredigaeth

3.1 Mae Polisi Atal Twyll a Llygredigaeth y corff plismona lleol yn seiliedig ar gyfres o weithdrefnau cynhwysfawr a chydberthnasol sy'n darparu fframwaith ar gyfer atal gweithgareddau gwrth-dwyll. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diwylliant
- Atal
- Datgelu ac ymchwilio
- Hyfforddiant

3.2 Hefyd mae amryw o gyrff allanol yn craffu ar faterion y sefydliad, gan gynnwys:

- Arolygiaeth Heddluoedd Ei Fawrhydi (AHEF)
- Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
- Cyllid a Thollau EM
- Archwilio Mewnol
- Cymunedau Lleol
- Y Cyfryngau

3.3 Mae gweithrediad y polisi hwn yn berthnasol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd a'r holl swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau'r corff plismona lleol. Cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ac eraill yn y corff plismona lleol ydi datgelu, atal a riportio twyll a llygredigaeth. Mae'r corff plismona lleol yn cynnig sicrwydd y bydd unrhyw bryderon yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol ac y byddant yn cael eu hymchwilio'n briodol heb ofni dial neu erledigaeth.

## 4. Diwylliant

4.1 Mae'r corff plismona lleol yn benderfynol bod diwylliant a naws y sefydliad yn un o onestrwydd a gwrthwynebu twyll a llygredigaeth.

4.2 Mae yna ddisgwyliad a gofyniad y bydd pob unigolyn a sefydliad sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r corff plismona lleol yn gweithredu gydag unplygrwydd, a bod staff y corff plismona lleol ar bob lefel yn arwain drwy esiampl ar y materion hyn. Cânt eu hannog yn bositif i fynegi

unrhyw bryderon sydd ganddynt oherwydd yn aml iawn yr unigolion hyn sy'n sicrhau bod twyll neu lygredigaeth yn cael eu datgelu a bod camau priodol yn cael eu cymryd. Gall y pryderon fod am rywbeth sy'n:

- Anghyfreithlon
- Mynd yn groes i Reolau Sefydlog neu bolisïau'r sefydliad
- Disgyn islaw safonau neu arferion sefydledig
- Arwain at wastraff neu golled i'r sefydliad
- Cyfystyr ag ymddygiad amhriodol.

4.3 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am fynd ar ôl unrhyw honiad neu amheuaeth o dwyll neu lygredigaeth a bydd yn dilyn proses sydd wedi'i diffinio'n glir. Nod y broses hon ydi:

- Delio gyda'r mater yn brydlon
- Cofnodi pob darn o dystiolaeth
- Sicrhau bod y dystiolaeth yn gryf ac yn cynnwys gwybodaeth ategol gadarn
- Sicrhau diogelwch yr holl dystiolaeth a gesglir
- Hysbysu'r cyrff perthnasol
- Defnyddio'r broses ddisgyblu ble'n briodol.

4.4 Os bydd angen, gall unigolion godi materion o'r fath gyda rhywun heblaw eu rheolwr llinell. Enghreifftiau o opsiynau eraill ydi:

- Prif Swyddog Cyllid y corff plismona lleol
- Prif Weithredwr a Swyddog Monitro'r corff plismona lleol
- Cymdeithasau Staff.

4.5 Efallai y bydd amgylchiadau lle bydd yn well gan unigolyn gysylltu ag asiantaeth allanol, er enghraifft:

- Swyddfa Archwilio Cymru
- Archwilio Mewnol
- Police Integrity Line – drwy Crimestoppers
- Public Concern at Work – elusen annibynnol sy'n cynnig cyngor am ddim ar dwyll a materion camymddygiad eraill
- Crimestoppers

Os bydd unigolyn yn penderfynu cysylltu â sefydliad allanol, dylent sicrhau **nad ydynt** yn dadlennu gwybodaeth 'Gyfrinachol' neu 'Gyfyngedig'.

4.6 Mae Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998 yn amddiffyn gweithwyr sy’n riportio gweithgareddau twyll a llygredigaeth rhag unrhyw ddial, cyhyd â'u bod yn diwallu'r rheolau sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf. Yn syml, y rheolau ar gyfer gwneud dadleniad gwarchodedig ydi:

- Bod y wybodaeth yn cael ei dadlennu’n ddidwyll.
- Mae’n rhaid i’r unigolion sy’n dadlennu’r wybodaeth gredu ei fod i raddau helaeth yn wir.
- Ni ddylai’r unigolyn sy’n dadlennu’r wybodaeth weithredu’n faleisus neu wneud honiadau ffug.
- Ni ddylai’r unigolyn sy'n gwneud yn honiad geisio unrhyw fudd personol.

Dan y Ddeddf, y swyddog dynodedig ddylai dderbyn dadleniadau ydi'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro.

4.7 Hefyd fe anogir aelodau’r cyhoedd i ddefnyddio unrhyw un o’r ffyrdd a nodir uchod i riportio eu pryderon.

4.8 Gellir gwneud honiadau/pryderon yn ddienw; fodd bynnag, dylid nodi y gall achosion o'r fath fod yn fwy anodd eu hymchwilio. Bydd y tebygolrwydd o weithredu yn dibynnu ar:

- Ddifrifoldeb y materion a godwyd
- Hygrededd y pryder a godwyd
- Tebygolrwydd o allu cadarnhau’r honiad o ffynonellau priodoledig.

4.9 Mae’r uwch reolwyr yn gyfrifol am fynd ar ôl unrhyw honiad o dwyll neu lygredigaeth a byddant yn gwneud hynny drwy:

- Ddelio gyda’r mater yn brydlon;
- Cofnodi pob darn o dystiolaeth;
- Sicrhau bod y dystiolaeth yn gryf ac yn cynnwys gwybodaeth ategol gadarn;
- Sicrhau diogelwch yr holl dystiolaeth a gesglir;
- Hysbysu’r cyrff perthnasol; a
- Defnyddio’r broses ddisgyblu fewnol ble'n briodol.

4.10 Disgwylir i’r corff plismona lleol ddelio yn gyflym ac yn drylwyr gydag unrhyw unigolyn sy’n ceisio twyllo’r sefydliad neu sy’n llygredig ac felly dylid ystyried eu bod yn ymdrin â chamymddygiad ariannol mewn modd yr un mor llym.

## 5. Atal

5.1 Fe gydnabyddir mai mesur ataliol allweddol yn y frwydr yn erbyn twyll a llygredigaeth ydi cymryd camau effeithiol ar y cam recriwtio i sefydlu, cyn belled a bo hynny'n bosibl, hanes blaenorol darpar staff o ran eu priodoldeb a'u hunplygrwydd. Felly dylid cydymffurfio â'r broses benodedig wrth recriwtio staff ac yn benodol dylid cael geirdaon ysgrifenedig am onestrwydd ac unplygrwydd darpar staff cyn cynnig swydd iddynt.

5.2 Fe ddisgwylir i weithwyr corff plismona lleol gydymffurfio ag unrhyw God Ymddygiad sy'n berthnasol i'w cymwysterau proffesiynol personol a hefyd gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Staff sy'n berthnasol iddyn nhw.

5.3 Mae Pwyllgor Nolan wedi cytuno ar saith egwyddor arweiniol sy'n berthnasol i unigolion sy'n gwasanaethu'r cyhoedd. Bydd y corff plismona lleol yn ceisio sicrhau bod ei ymddygiad gwaith yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn (yn atodedig yn Atodiad 2). Bydd datganiadau o'r fath yn cael eu cofnodi mewn cofrestr cyhoeddus a gedwir gan y Prif Weithredwr a bydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld ar gais.

5.4 Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd a'r staff ddatgan gynigion o anrhegion neu letygarwch sy'n cael eu derbyn neu gwrthod sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â chyflawniad eu dyletswyddau mewn perthynas â'r sefydliad.

5.5 Mae llawer o bwyslais wedi cael ei roi ar ddogfennu systemau ariannol yn drwyadl, ac fe wneir pob ymdrech i adolygu a datblygu'r systemau hyn yn barhaus yn unol ag arfer da er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd rheolaethau mewnol. Mae digonolrwydd a phriodoldeb systemau ariannol y sefydliad yn cael eu monitro'n annibynnol gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilwyr Allanol. Mae'r uwch reolwyr yn rhoi cryn bwyslais ar fod yn ymatebol i argymhellion archwiliadau.

5.6 Mae trefniadau mewn lle i barhau i ddatblygu ac annog y corff plismona lleol, yr heddlu ac asiantaethau eraill i rannu gwybodaeth am weithgareddau twyll a llygredigaeth cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i gyrff plismona lleol a'r heddluoedd.

## 6. Datgelu ac ymchwilio

6.1 Mae'r amrywiaeth o systemau atal, ac yn benodol systemau rheolaeth fewnol y sefydliad, wedi cael eu cynllunio i ddarparu arwyddion o unrhyw weithgaredd twyllodrus, er yn gyffredinol fe ddylent fod yn ddigon ar eu pen eu hunain i atal twyll.

6.2 Cyfrifoldeb y rheolwyr ydi atal a datgelu twyll a llygredigaeth. Fodd bynnag yn aml iawn y staff a'r cyhoedd sy'n datgelu hyn gan olygu y gellir cymryd y camau gweithredu priodol pan fydd tystiolaeth bod twyll neu lygredigaeth wedi cael, neu yn cael ei gyflawni.

6.3 Er gwaethaf ymdrechion y rheolwyr, y goruchwylwyr a'r archwilwyr, yn aml iawn drwy siawns neu achlust y mae llawer o achosion o dwyll yn cael eu datgelu, ac mae gan y corff plismona lleol drefniadau mewn lle i ddelio'n briodol â gwybodaeth o'r fath.

6.4 Gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb yr honiadau, fel arfer bydd darparwr gwasanaeth Archwilio Mewnol y sefydliad yn gweithio'n agos gyda'r rheolwyr a'r asiantaeth ymchwilio i sicrhau bod yr holl honiadau, drwgdybiaethau a'r dystiolaeth yn cael eu hymchwilio a'u cofnodi'n iawn.

6.5 Bydd y broses camymddygiad/ddisgyblu briodol yn cael ei rhoi ar waith mewn perthynas â'r unigolyn dan amheuaeth pan fydd canlyniad ymchwiliad yr archwilwyr yn dangos bod yr unigolyn wedi ymddwyn yn amhriodol. Hefyd, mae'n bosib y bydd camau cyfreithiol sifil yn cael eu cymryd er mwyn adennill yr arian neu'r eiddo a gymerwyd gan y sefydliad

6.6 Dylai pob rheolwr a goruchwyliwr sicrhau bod rheolaethau mewn lle i atal a datgelu twyll a chamgymeriadau. Mae angen bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o dwyll wrth adolygu neu dderbyn, er enghraifft, hawliadau, ffurflenni a dogfennau. Materion fyddai'n gallu arwain at amheuon neu honiadau fyddai:

- Dogfennau sydd wedi cael eu newid, hylif cywiro wedi'i ddefnyddio, pinnau gwahanol a llawysgrifen wahanol
- Hawliadau na ellir eu gwirio, yn enwedig os na roddwyd caniatâd o flaen llaw
- Testun dryslyd, annarllenadwy a manylion ar goll
- Oedi cyn llenwi neu gyflwyno dogfennau
- Dim talebau neu dderbynebau i gefnogi hawliadau.

## 7. Hyfforddiant

7.1 Mae'r sefydliad yn cydnabod y bydd llwyddiant parhaus y Polisi Atal Twyll a Llygredigaeth a'i hygrededd cyffredinol yn ddibynnol i raddau helaeth ar effeithiolrwydd hyfforddiant ac ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd a holl weithwyr y sefydliad.

7.2 Er mwyn hwyluso hyn, mae'r corff plismona lleol yn cefnogi'r cysyniad o raglen cyflwyno a hyfforddiant, yn arbennig ar gyfer staff fydd yn ymwneud â systemau rheolaeth fewnol, er mwyn sicrhau bod eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau yn hyn o beth yn cael eu tanlinellu a'u hatgyfnerthu'n rheolaidd.

7.3 Fe nodir yn glir y gall staff sy’n anwybyddu hyfforddiant ac arweiniad o’r fath gael eu disgyblu.

## 8. Casgliad

8.1 Mae gan y corff plismona lleol rwydwaith clir o systemau a phrosesau mewn lle er mwyn cynorthwyo i gynnal y safonau ymddygiad uchel y mae wastad wedi'u cyflawni. Penderfynwyd y bydd y trefniadau hyn yn cadw i fyny ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol mewn technegau atal a datrys gweithgareddau twyllodrus a llygredig a fyddai’n gallu effeithio ar ei weithrediadau.

8.2 I’r perwyl hwn, mae'r sefydliad yn cynnal trosolwg parhaus o drefniadau o'r fath drwy, yn benodol, ei Brif Swyddog Cyllid a'r Prif Weithredwr, drwy'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol, y Codau Ymddygiad a’r Cyfarwyddiadau Cyfrifyddu, a drwy drefniadau Archwilio Mewnol ac Allanol.

8.3 Bydd y Datganiad Polisi hwn yn cael ei adolygu er mwyn iddo adlewyrchu unrhyw newidiadau i reolau’r corff plismona lleol, neu newidiadau i ddeddfwriaeth ac arferion gwaith.

## Atodiad 1

### 1. Canllawiau ar gyfer riportio anghysondebau

Tynnir eich sylw at y wybodaeth yn adran 4 y ddogfen bolisi, sy'n adnabod ffyrdd posibl o ddod â chamweddau posibl i sylw eraill. Fel arfer dylai unigolion sy'n bwriadu riportio anghysondebau ystyried y materion canlynol:

- Peidiwch â mynd at, cyfweld neu gyhuddo unrhyw un a ddrwgdybir o gyflawni camwedd.
- Casglwch yr holl ffeithiau a dogfennau sydd ar gael gan y ffynonellau sydd wrth law.
- Os ydi'r wybodaeth wedi cael ei rhoi gan aelod o'r cyhoedd dros y ffôn, yna dylai'r wybodaeth gael ei nodi ar bapur, dylid nodi'r dyddiad a'r amser, dylid nodi enw a chyfeiriad y sawl a roddodd y wybodaeth ac os ydynt yn fodlon ei dadlennu.
- Paratoi nodyn briffio ar yr amgylchiadau
- Peidiwch â gwneud ymholiadau pellach heb awdurdodiad.

### 2. Sut y bydd y corff plismona lleol yn ymateb

Mewn amgylchiadau lle bydd honiad o dwyll neu lygredigaeth wedi'i wneud:

1. Bydd y camau y bydd y sefydliad yn eu cymryd yn dibynnu ar ddifrifoldeb y mater. Bydd y materion:

- yn cael eu hymchwilio'n fewnol gan reolwr priodol;
- yn cael eu cyfeirio at yr heddlu os oes tystiolaeth bod trosedd wedi'i gyflawni;
- yn cael eu cyfeirio at yr Archwilydd Allanol os oes tystiolaeth o amhriodoldeb ariannol;

ac

- fe gynhelir ymholiad annibynnol allanol neu fewnol.

2. Er mwyn amddiffyn unigolion a'r sefydliad, fe gynhelir ymholiadau cychwynnol er mwyn penderfynu os oes angen cynnal ymchwiliad ac, os oes, pa fath o ymchwiliad. Fel arfer bydd pryderon a honiadau sy'n disgyn o fewn cwmpas prosesau sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cyfeirio i'w hystyried dan y prosesau hynny.

3. Mae'n bosib y bydd rhai pryderon yn cael eu datrys drwy gymryd camau penodol a heb orfod cynnal ymchwiliad.

4. O fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn honiad o dwyll neu lygredigaeth posibl, bydd y corff plismona lleol yn ymateb drwy:

- gydnabod bod y wybodaeth wedi'i derbyn;
- nodi sut mae'n bwriadu delio gyda'r mater;
- rhoi amcangyfrif o faint o amser y bydd yn ei gymryd i ddarparu ateb terfynol;
- dweud wrth yr achwynydd a oes unrhyw ymholiadau cychwynnol wedi'u gwneud; a
- gadael i'r achwynydd wybod a gynhelir ymchwiliad pellach ac os ddim, pam.

5. Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol gan yr achwynydd, yna mae'n ganddynt hawl i gael cymdeithas broffesiynol, undeb llafur neu ffrind yn bresennol sydd ddim yn gysylltiedig â'r maes gwaith sy'n ymwneud â'r honiad.

6. Bydd y sefydliad yn cymryd camau i leihau unrhyw anawsterau y gall yr achwynydd eu profi o ganlyniad i fynegi pryder.

7. Os nad oes yna unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol neu faterion cyfrinachedd, bydd yr achwynydd yn cael gwybodaeth am ganlyniad unrhyw ymchwiliad.

## Atodiad 2

### Saith egwyddor bywyd cyhoeddus (PWYLLGOR NOLAN)

**Anhunanoldeb**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu'n faterol.

**Unplygrwydd**

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd**

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

**Atebolrwydd**

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt gytuno i fod yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'r swydd.

**Bod yn agored**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a'r camau a gymerir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

**Gonestrwydd**

Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd.

**Arweinyddiaeth**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad a dangos esiampl.